



Inspecting policing
in the public interest

**Adolygiad o Adroddiadau
Troseddau a
Digwyddiadau'r Heddlu**

**Heddlu Gogledd Cymru
Ionawr 2012**

Mae Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) yn arolygiaeth annibynnol, yn arolygu plismona er lles y cyhoedd. Rydym yn monitro, arolygu ac adrodd ar effeithlonrwydd y gwasanaeth heddlu yn Lloegr a Chymru. Mae rhagor o wybodaeth a chopïau o adroddiadau arolygu ac adolygu ar gael ar ein gwefan, www.hmic.gov.uk.

Y broses o gofnodi troseddau a digwyddiadau

Mae gan y broses gofnodi dri cham allweddol:

- **Cofnodi digwyddiad:** Mae aelod o'r cyhoedd yn galw am gymorth yr heddlu, neu mae heddwys yn gweld neu'n darganfod trosedd. Mae'r heddlu'n creu cofnod digwyddiad.
- **Cofnodi trosedd:** Os yw'r heddlu'n penderfynu bod trosedd wedi'i gyflawni, maent yn creu cofnod trosedd (fel arfer yn syth bin).
- **Ymchwilio i drosedd:** Mae ymchwiliadau'n cychwyn cyn gynted â phosibl, fel arfer ag ymholiadau cychwynnol sy'n chwilio am gleimiau posibl ac yn casglu tystiolaeth ('ymchwiliad sylfaenol'). Yna mae 'ymchwiliad eilaidd' manylach yn cymryd lle er mwyn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn y camau cychwynnol.

Diben yr adolygiad

Mae'r Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol, Nick Herbert, wedi gofyn i HMIC ymchwilio i ansawdd y data troseddau a digwyddiadau a gesglir gan luoedd yr heddlu ar draws Lloegr a Chymru.

Pam mae mor bwysig i gael data troseddau a digwyddiadau o ansawdd uchel?

Mae data o ansawdd uchel yn golygu:

- Gall yr heddlu sefydlu maint, lleoliad a dioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB), ac felly gynllunio'u gwaith er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i ddioddefwyr a'u cymunedau;
- Gall y cyhoedd, y Llywodraeth ac HMIC gael darlun cywir o drosedd ac ASB mewn ardal neilltuol, a barnu a yw perfformiad eu llu'n cynrychioli gwerth am arian.

Mae ymrymiad y Llywodraeth i atebolrwydd cyhoeddus a thryloywder yn ychwanegu'r angen am ddata cywir a chyson at hwn. Bydd hwn yn dod yn gynyddol o bwysig wrth i oruchwyliaeth o'r gwasanaeth heddlu symud i ffwrdd o Whitehall i gomisiynwyr heddlu a throsedd lleol (PCCau), a fydd yn dibynnu ar wybodaeth gywir, leol ynghylch y ffordd mae eu llu'n perfformio.

Pwy sy'n gosod y safonau ar gyfer cofnodi troseddau a digwyddiadau?

Mae'r Swyddfa Gartref yn gosod y safonau ar gyfer cofnodi troseddau a digwyddiadau ill dau. Ategir y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cofnodi Troseddau (NCRS) gan Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref (HOCR). Mae'r rhain yn anelu at ddarparu safonau cyson ar gyfer pob llu ac ymagwedd tuag at gofnodi troseddau sy'n seiliedig ar anghenion y dioddefwr.

Methodoleg yr adolygiad: nodyn ar gasglu data

Gwiriodd HMIC gywirdeb nifer fach o gofnodion troseddau a digwyddiadau'r llu. Defnyddiwyd hwn i amlygu unrhyw broblemau posibl y gellid archwilio iddynt â phwrpas yn ystod yr adolygiad.

Er nad oedd maint y sampl yn ddigon mawr i fod yn ystadegol arwyddocaol, mae'n rhoi rhyw arwydd ynghylch ansawdd y data a gasglwyd gan y llu, ac effeithlonwydd ei systemau a'i brosesau. Felly cynhwysir rhai ganfyddiadau o'r casgliad o ddata isod.

Canfyddiadau ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru

A yw'r llu'n cofnodi troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gywir ac yn gyson?

Gwiriodd HMIC 120 o ddigwyddiadau a gofnodwyd gan Heddlu Gogledd Cymru. Roedd saith wedi'u cau'n anghywir heb fod trosedd yn cael ei gofnodi sy'n awgrymu y cofnodir troseddau yng Ngogledd Cymru'n gywir ar y cyfan ac yn unol ag NCRS.

Trosglwyddir y mwyafrif o fathau o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â throseddau'n awtomatig o'r system gorchymyn a rheoli i'r system droseddau sy'n gwella cywirdeb y data, er nad yw'n cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol ar hyn o bryd.

Amlygodd HMIC adnabod a rheoli cychwynnol ASB fel maes o risg arwyddocaol i'r llu, yn arbennig mewn cysylltiad â dioddefwyr ailadrodd a hyglwyf, ac mae cynlluniau'n bodoli erbyn hyn i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

Mae'r weithdrefn a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer dosbarthu 'dim trosedd' yn gref ac yn ethgol, ac mae wedi arwain at welliant gweladwy yn y maes hwn.

Beth yw ansawdd yr ymchwilio a'r gwasanaeth i ddioddefwyr?

Er gwaethaf y problemau ag ASB, mae tystiolaeth am ffocws cryf ar ddioddefwyr gan Heddlu Gogledd Cymru ac mae contract sy'n sefydlu sut (a pha mor aml) mae'r llu'n cysylltu â dioddefwyr yn ffurfio rhan o'r ymchwiliad cychwynnol. Mae prif swyddogion yn hyrwyddo'r defnydd o system gyfiawnder adferol â phwyslais eglur ar foddhad dioddefwyr.

Daethom o hyd i dystiolaeth bod ymchwilio a goruchwylio mewn achosion o droseddau difrifol yn gryf, ond nid oedd hwn mor amlwg ar gyfer troseddau cyfaint-mawr (fel troseddau cerbydau) ac ASB. Mae Tîm Cymorth Ymchwiliad a gyflwynwyd yn ddiweddar yn darparu plattform ar gyfer gwella cysondeb ac ansawdd ynghylch cofnodi digwyddiadau a throseddau, ac ymchwilio.

Sut mae'r llu'n sicrhau y cwrddir â safonau?

Mae arweinyddiaeth gref a phwrpasol ynghylch ansawdd data troseddau a digwyddiadau yn Heddlu Gogledd Cymru. Y Dirprwy Prif Gwnstabl yw'r arweinydd adnabyddedig ac mae ganddo safbwynt a gydnabyddir yn eang ynghylch pwysigrwydd cofnodi ethegol o droseddau. Fodd bynnag, mae angen mwy o waith i drosglwyddo'r ymrwymiad hwn i'r rheng flaen, ble mae gwybodaeth am safonau troseddau a digwyddiadau a rheoli risg a hyglwyfder yn isel a byddai'n elwa o fuddsoddiad.

Mae gan Gofrestrydd Troseddau a Digwyddiadau'r Llu (FCIR) gymorth llawn prif swyddogion. Mae'r rôl wedi'i gosod yn dda ac mae'n annibynnol o strwythurau rheoli perfformiad.

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru ymagwedd gref, ond eto'n gymesur, tuag at archwilio sy'n gysylltiedig â risg a sydd wedi cyfrannu at welliant sefydliadol.

Casgliadau

Mae trefniadau da ar lefel uwch i sicrhau ansawdd data digwyddiadau a throseddau, a gefnogir gan gynlluniau, polisiau a strategaethau cynorthwyol. Amlygodd HMIC adnabod a rheoli cychwynnol ASB fel maes o risg arwyddocaol i'r llu, yn arbennig mewn cysylltiad â dioddefwyr ailadrodd a hyglwyf. Mae cyfleoedd i wella gwybodaeth a dealltwriaeth y staff ynghylch safonau troseddau a digwyddiadau, ac ynghylch rheoli risg a hyglwyfder. Mae system archwilio gref y llu ar gyfer troseddau a digwyddiadau'n gysylltiedig â risg ac mae wedi cyfrannu at welliant sefydliadol.

© HMIC 2012
ISBN: 978-1-84987-665-0
www.hmic.gov.uk